ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Hydref 2019

Adran Saesneg – daeth criw o ddisgyblion Bl.6 Ysgol y Gorlan i'r ysgol dydd Mawrth 8fed o Hydref a threulio un wers yn yr Adran Saesneg efo Mrs. Mary Gwyn. Cafodd y disgyblion dasg o 'sgwennu creadigol gan ddefnyddio llyfrau Harry Potter fel ysbrydoliaeth. Da iawn chi.

Adran Chwaraeon Ysgol Eifionydd

Ar Fedi'r 29ain death Rachel Taylor cyn gapten tim Rygbi merched Cymru i Ysgol Eifionydd i gyflwyno sesiwn hyfforddi ar gyfer merched Blwyddyn 8. Gyda dipyn o gyffro cafodd y disgyblion hefyd y cyfle i gael tynnu eu llun gyda Thlws a Choron Driphlyg y 6 Gwlad.

Llongyfarchiadau i Grace McMeeken ar ddod yn 1af drwy Gymru mewn cystadleuaeth Gymnasteg ‘Out of Age – Lefel 3’ yng Nghaerdydd. Gwych!

Mae Gwyn Owen, Aron Jones ac olaf Niechcial o flwyddyn 9 wedi cofrestru ar gyfer yr her feicio 200. Mae Aron wedu casglu £600 tuag at yr elusen Ymchwil Cancr ac mae wedi beicio cyfanswm o 210 o filltiroedd yn ystod y penwythnos ac ar ôl ‘rysgol. Da iawn, maent i’w llongyfarch yn fawr am eu hymdrechion.

Llongyfarchiadau i Maddie Brookes-Jones, Nel Evans a Lois Jones sydd wedi cael eu dewis i chwarae hoci i dîm Genethod Ysgolion Gwynedd U16. Ar y 13eg o Hydref byddant yn mynd i Barc Eirias, Bae Colwyn i chwarae mewn Twrnament. Pob lwc i chi genod.



Llongyfarchiadau i Deio Williams a Gethin Jolly ar gael eu dewis i chwarae Rygbi i'r tim RJC. Byddant yn yn ymarfer bob nos Lun ym Methesda – pob lwc i chi hogiau.

Gyda diolch i Nigel Hughes am y lluniau.